

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth
DYDDIAD	18 Chwefror 2021
PWNC	Calendr Pwyllgorau 2021/22
PWRPAS	Argymhell y calendr ar gyfer cynnal pwyllgorau 2021-22 i'r Cyngor Llawn
AWDUR	Geraint Owen Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

1. CEFNDIR

- 1.1 Cyflwynir y calendr o ddyddiadau pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2021/22 er mwyn ei drafod cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar y 4 o Fawrth.
- 1.2 Mae'r Calendr yn cynorthwyo'r Cyngor, ei Aelodau a'r cyhoedd i gynllunio ymlaen ar gyfer dyddiadau ac amseroedd prif gyfarfodydd y Cyngor.
- 1.2 Noder mai dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond gall sefyllfaoedd godi ble bydd angen trefnu cyfarfodydd ychwanegol er mwyn gallu gweithredu busnes y Cyngor.
- 1.3 Tra gwneir pob ymdrech i osgoi cynnal cyfarfodydd yn ystod gwyliau'r ysgol, nid yw hynny yn bosib ar bob achlysur os am sicrhau parhad gwasanaeth y Cyngor.
- 1.4 Ymgynghorwyd a swyddogion perthnasol a'r Parc Cenedlaethol Eryri ar fersiwn drafft y calendr pwyllgorau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro a chyfarfodydd eraill.

2.0 CALENDR PWYLLGORAU 2021/22

- 2.1 Gweler yr atodiad ar gyfer dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor 2021/22.
- 2.2 Nodir fod dyddiadau'r holl gyfarfodydd wedi llithro ychydig oherwydd bod Etholiad Comisiynydd yr Heddlu ac Etholiad y Senedd yn cael ei gynnal ar 6 Mai. O ganlyniad, bydd cyfarfod blynyddol y Cyngor Llawn yn cael ei gynnal wythnos yn hwyrach na'r hyn a fwriadwyd, ar yr 13 Mai 2021.
- 2.3 Amlygir yn ogystal fod dyddiad Cyfarfod Blynyddol y Cyngor yn 2022 hefyd wedi ei wthio ymlaen o ganlyniad i Etholiad Llywodraeth Leol. Bydd y dyddiad hwyrach yn rhoi cyfle i'r Gwasanaeth Democratiaeth drefnu a cynnal sesiwn anwytho i'r holl Aelodau cyn cyfarfod y Cyngor Llawn Blynyddol.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth argymhell i'r Cyngor Llawn i fabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2021-22.